CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Cysylltwr/Connector: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, Ebrill 6ed, 2018 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr:
Mrs. Eira Lewis, Mrs. Anne Williams, Mr. Huw Lloyd, Mr. Geraint Jones, Mrs. Becky Mollison-White, Mrs Rhiannon Jones

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Geraint Jones yn absenoldeb y Cadeirydd.

2. **Ymddiheuriadau:**
   Mr David Williams (Cadeirydd).

3. **Cofnodion cyfarfod Mawrth 9fed, 2018**
   Derbyniwyd yn gywir ac arwyddwyd gan Geraint Jones.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
   - **CYFRANIAD I'R PWYLLGOR TOILEDAU** – yr un swm ag arferol - £2 y pen poblogaeth y plwyf – 444 x £2 = £888
   - **CYFARFOD CAE CHWARAE** – wedi penderfynu dal yn ôl ar brynu caban, dan obeithio defnyddio adeilad yr hen ysgol pan ddaw i feddiant y pentref.
   - **COED NYRS GRON** – Y clerc wedi edrych i mewn i'r grant o goed. Dim coed fel y 'Scotch Pine' ar gael. Y clerc i ddal i edrych i mewn i'r mater.
   - **CERBYDAU 4X4** – yn dal i drafeilio ar hyd y Berwyn a chreu difrod.

5. **Gohebiaeth**
   - Cwblhawyd Holiadur Un Llais Cymru ar lein.
   - Taflen biniau dal baw cwm – Clerc i ymholi cost bin a chost eu gwagu.
   - Taflen Elan City - Arwydd Cyflymder Radar. Clerc i ymholi am fwy o wybodaeth

6. **Materion Cynllunio**
   - Dim materion cynllunio i'w trafod

7. **Materion Ariannol**
   - Taliadau â gytunwyd yn y cyfarfod diwethaf dal heb eu talu – gan fod y mandad dal heb ei gadarnhau gan y banc - D. Williams £300, Ysgol Bro Dyfrdwy £200, Un Llais Cymru £95 a Gaenor Richards £119.99
   - Wedi derbyn siec gan A G Evans yn dilyn cynhebrwng Mrs J Roberts.
   - AWDIT MEWNOL – derbynwyd llythyr yn derbyn gan /Maria Williams i gwblhau yr awdit mewnol.

8. **Unrhyw fater arall**

- **COF GOLOFN** – yn dilyn ymholiad o rhoi enw milwr o'r ardal ar y gof-golofn yn y pentre. Wedi ymchwil, nid yw'r 'British Legion' am ariannu'r ychwanegiad o'r enw, gan na fu farw 'ar faes y gad'.
- **TENDER TORRI GWAIR** – Cafwyd 3 cynnig tendr ar gyfer torri gwair y fynwent. Penderfynwyd i dderbyn cynnig Russell Helsby.
- **CYFLWR STRYDOEDD A'R PALMENTYDD** – Palmant Bro Dinam, camfa llwybr cerdded ger Tŷ'n Wern, llwybr Stryd y Bedd a ffordd heibio Tŷ'n Ffridd. Clerc a'r Cynghorydd Sir i gysylltu â Sir Ddinbych.
- **GLAN AFON CEIDIOG** – mae rhan arall o'r afon Ceidiog yn erydu (rhwng y tir comin a Quillet) Clerc i gysylltu a'r Sir i'w hysbysu am hyn.
- **WAL Y FYNWENT** – darnau o'r wal o amgylch y fynwent angen sylw – D Williams wedi rhoi amcan bris o £60 – y cynghorwyr yn fodlon i barhau gyda'r gwaith. Clerc i gysylltu â Mr Williams.
- **TLWS JOHN A CERIDWEN HUGHES** – Fe gyflwynwyd y wobr yma i Gwenda Owen eleni i gydnabod ei chyfraniad i fywyd ieuenctid Cymru. Y clerc i yrru llythyr ar ran y Cynghorwyr i'w llongyfarch.
- **GIAT MYNEDIAD I TYN Y GROES** – i gadarnhau y bod y giât newydd yr un maint â'r hen giât.

Cyfarfod nesaf – Cyfarfod Blynyddol - Nos Iau, Mai 3ydd am 7.30 y.h. yn y Ganolfan.

Arwyddwyd: ……

Dyddiad : ……